***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 692

# Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2011

## RHAN 2

Profi a Symud

### Hysbysiad gwella milfeddygol

**8.**—(1) Caiff arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad gwella milfeddygol") ("*veterinary improvement notice*") i geidwad anifail nad yw'n anifail buchol, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y ceidwad, erbyn dyddiad a bennir yn yr hysbysiad, yn gwneud pethau neu'n ymatal rhag gwneud pethau, at y diben o atal clefyd rhag lledaenu ac, yn benodol, caiff osod unrhyw un neu ragor o'r gofynion a grybwyllir ym mharagraff (2).

(2) Mae'r gofynion y ceir eu gosod drwy gyfrwng hysbysiad gwella milfeddygol yn cynnwys—

(a) codi ffensys, clwydi a chamfeydd;

(b) mabwysiadu dulliau effeithiol o allgáu grwpiau o anifeiliaid o rannau penodedig o'r fangre;

(c) diogelu silwair, storfeydd bwydydd anifeiliaid a mannau bwydo rhag bywyd gwyllt, gan gynnwys adar;

(ch) cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y bobl sy'n mynd ar dir y ceidwad yn cymryd rhagofalon rhesymol rhag lledaenu clefyd.